**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | M Durke |
| J A Hale | C A Holley | Y V Jardine |
| S M Jones | J W Jones | G J Tanner |
| E T Kirchner | W G Lewis | D W W Thomas |
| H M Morris | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Elliott King | Aelod y Cabinet – Gwasanaethau Plant |
| Clive Lloyd | Aelod y Cabinet – Gwasanaethau Gofal I Oedolion ac Iechyd Cymunedol |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Aelodau Cyfetholedig(wyr): T Beddow

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd y Cynghorwyr Mike Durke, Joe Hale, Chris Holley, Jeff Jones, Susan Jones a Wendy Lewis gysylltiad personol.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y Panel ar gofnodion cyfarfod y Gwasanaethau i Oedolion a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2020 a chyfarfod y Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2020 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

## 5 Monitro Perfformiad

Gohiriwyd yr eitem tan y cyfarfod nesaf.

## 6 Y diweddaraf am Reolaeth Pandemig COVID-19

Roedd Clive Lloyd, Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol; Elliott King, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Plant a David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol yn y cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am y sefyllfa bresennol o ran Pandemig COVID-19.

Pwyntiau i'w trafod:

- Gofynnodd Aelodau'r Panel i Aelodau'r Cabinet/y Cyfarwyddwr fynd â neges yn ôl i'r staff, gan fynegi diolch a gwerthfawrogiad i'r holl aelodau staff y rhoddwyd pwysau enfawr arnynt ac sy'n gwneud gwaith anhygoel dan amgylchiadau anodd iawn.
- Er mwyn cefnogi'r risg o fethiant cartrefi gofal, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynnig creu gweithlu symudol o staff gofal ac iechyd cymunedol a all fynd i gartrefi gofal sy'n cyrraedd pwynt argyfwng. Gobeithiwn y bydd cadarnhad yn fuan bod trefniadau ar waith.
- Gofynnwyd i arweinwyr yr holl bleidiau gwleidyddol ledaenu'r neges i'w haelodau a'u cymunedau drwy rannu'r recordiad o'r cyfarfod.
- Mae posibilrwydd y bydd yn rhaid cyfyngu ar ofal. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ailddosbarthu esboniad i'r cynghorwyr o'r hyn y dylid ei wneud os bydd aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â hwy ynghylch materion sy'n ymwneud â gofal.
- Mae'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau cymorth cynnar, y Gwasanaethau Plant ac ysgolion yn rhagorol. Sicrhawyd bod popeth y gellid ei wneud i blant diamddiffyn yn y sefyllfa bresennol eisoes yn cael ei wneud.
- Y neges i'r cyhoedd yw y dylid cyfyngu ar gymysgu gydag aelwydydd eraill dros y Nadolig, ac os ydych yn cymysgu ag aelwyd arall, rhaid ceisio amddiffyn anwyliaid hŷn.
- Y neges i Lywodraeth Cymru yw bod y cyfnod atal byr wedi cael effaith. Rhaid i ni gael rhywbeth tebyg yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.
- Mae pwysau enfawr ar staff Profi ac Olrhain yn ogystal â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae cynllun ar waith i ychwanegu at yr uned Profi ac Olrhain dros y Nadolig a'i chryfhau ond mae gallu'r system hon yn cael ei herio.
- Nid yw'r Cyfarwyddwr wedi'i argyhoeddi y byddai gan brofion cymunedol torfol ddigon o werth ar gyfer swm yr adnoddau y byddai ei angen i roi hyn ar waith. Defnydd wedi'i dargedu o brofion llif ochrol yn ddyddiol yw'r model a fyddai'n gweithio mewn theori i gyfran fawr o'r gweithlu sy'n ynysu, gan eu bod yn gyswllt, ond mae'n bosib nad oes ganddynt COVID. Bydd angen trafod gyda Llywodraeth Cymru sut y gellid cyflwyno rhywbeth fel hyn i'r bobl hynny, gan y gallai alluogi rhai staff i ddychwelyd i'r gwaith yn gynharach.

- Rydym yn cyrraedd dirlawnbwynt o ran nifer y profion a ddyrannwyd i'r rhanbarth hwn. Cynhelir trafodaethau o hyd yn genedlaethol i weld a ellid cynyddu hyn.
- Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r panel yn pryderu am ofalwyr yn y tymor hir a gofynnwyd i hyn gael ei gadw mewn cof.

Camau Gweithredu:

- Gofyn i arweinwyr pob grŵp gwleidyddol rannu'r recordiad o'r cyfarfod gyda'u haelodau a'u cymunedau.
- Ailddosbarthu esboniad i'r cynghorwyr o'r hyn y dylid ei wneud os bydd aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu â hwy ynghylch materion sy'n ymwneud â gofal.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45pm.